

## UNIFY ac Ysgol Uwchradd Cathays

Mae prosiect Cymunedau Cymru wedi cefnogi Ysgol Uwchradd Cathays i ddysgu mwy am eu cynefin a chymunedau amrywiol Caerdydd. Gweithiodd y Llyfrgell gydag UNIFY (artistiaid sydd wedi creu nifer o furluniau enwog yng Nghaerdydd) i gyflwyno 6 gweithdy gyda dysgwyr blwyddyn 7 mewn gwersi celf.

## Nod y prosiect

Cyd-gynlluniodd y dysgwyr furlun sy'n dathlu amrywiaeth y gymuned ac arddangos sut y gallai celf gysylltu pobl. Ysbrydolwyd dyluniad y murlun gan 'The Wales Window' gan John Petts.

## Cynnwys y prosiect

- 6 gweithdy yn Ysgol Uwchradd Cathays gyda UNIFY
- Defnyddio archif y Llyfrgell i ysbrydoli

## Partneriaethau

- UNIFY
- Addewid Caerdydd
- Cyngor Caerdydd
- Archif Ddarlledu Cymru (Llyfrgell Genedlaethol Cymru)

## Allbynnau

- Murlun (sydd am gael ei arddangos ar wal yng Nghaerdydd)
- Adnodd addysg

## Alan Thomas-Williams (Addewid Caerdydd)

"Prif ffocws y prosiect oedd dathlu diwylliannau a hunaniaethau sy'n ffurfio cymuned yr ysgol ac yr ardal o'i chwmpas. Yn ystod y prosiect, arweiniodd UNIFY - artistiaid lleol, weithdai lle bu'r dysgwyr yn rhannu eu syniadau eu hunain o gymuned. Buodd y dysgwyr ar daith gerdded i weld gwaith celf gyhoeddus yn y gymuned, yn defnyddio archif y Llyfrgell i ymchwilio hanes aml-ddiwylliannol Cathays, ac yna nodi syniadau eu hunain ar gyfnas. Bydd syniadau'r dysgwyr yn ysbrydoli UNIFY i ddylunio'r murlun terfynol, a'r gobaith yw y bydd y gwaith yn cael ei arddangos mewn lle amlwg yn y ddinas"

